



---

# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

---

**HAF 2022**

**TAG  
CYMRAEG IAITH GYNTAF - UNED 5  
SAFON UWCH (NEWYDD)  
1000N50-1**

## **RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgrïptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

**CYMRAEG: IAITH GYNTAF**

**UNED 5**

**Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, yr Hengerdd a'r Cywyddau  
(*papur ysgrifenedig*)**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2022**

**1. Rhyddiaith yr Oesoedd Canol**

Mae 45 marc i'r cwestiwn cyfan. Rhoddir 15 marc am AA2 – Ymateb i destun, 1(a) a'r un modd i 1(b). Rhoddir 15 marc am AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig ar draws y ddau isgwestiwn.

(a) Disgwylir i'r ymgeiswyr allu darllen a deall orgraff a gramadeg y testun gwreiddiol er mwyn ateb yr adran hon.

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu deall ystyr, cynnwys a rhediad storïol y dyfyniad a chyflwyno dehongliad trefnus, cryno ohono megis yr hyn a geir yn y golofn gyntaf.

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu nodi eu bod wedi deall arwyddocâd syniadau cyd-destunol sydd yn y dyfyniad, megis y rhai a geir yn y ddwy golofn olaf.

Digwyddiadau	Arwyddocâd	Cyd-destun
<p>Ar ôl y frwydr rhwng y Gwyddelod a gwŷr Ynys y Cedyrn mae'r Gwyddelod yn defnyddio'r Pair Dadeni i roi ailfywyd i'w milwyr.</p>	<p>Arwyddocâd y Pair Dadeni a roddwyd i Fatholwch fel iawndal. Mae haelioni Bendigeidfran, wrth ychwanegu at iawndal Matholwch, yn arwain at gollir frwydr yn erbyn y Gwyddelod.</p> <p>Mae tystiolaeth archaeolegol a llenyddol yn dangos pwysigrwydd peiriau mewn defodau Celtaidd. Ceir cyfatebiaethau rhwng y Pair Dadeni a golygfa ar un o'r peiriau enwocaf – Pair Gundestrup o Ddenmarc (150 – 50 cc). Yno mae llun dyn enfawr ar fin trochi milwr mewn rhyw fath o bair, sy'n cyfateb i'r hyn a geir yn y rhan hon o'r chwedl.</p> <p>Ceir cyfeiriadau eraill at beiriau mewn llenyddiaeth Gymraeg ganoloesol, fel un o dri thlws ar ddeg Ynys Prydain – Pair Dyrnwch Gawr – oedd yn cael ei ddefnyddio i wahaniaethu rhwng gwŷr dewr a llwfr.</p> <p>Dyma'r unig le yn y testun lle y pwysleisir nodwedd hudol y pair yn y teitl – Pair <u>Dadeni</u>.</p>	<p>Cyfeirio at y sarhad gwreiddiol a achosodd i Bendigeidfran orfod talu'r iawndal – difrodi ceffylau Matholwch.</p> <p>Mae'n eironig i Bendigeidfran dderbyn y pair gan Llasar Llaes Gyfnewid a Chymidai Cymeinfol, ei wraig, ac iddynt hwy ddod â'r pair gyda nhw o Iwerddon.</p>
<p>Pan wêl Efnysien hyn cywilyddia mai ef oedd achos y lladdfa a cheisia wneud iawn am hyn.</p> <p>Cuddia Efnysien yng nghanol pentwr o gyrff milwyr y Gwyddelod a chaiff ei daflu i'r pair gyda nhw. Ymestynna yn y pair nes ei dorri'n bedwar darn. O ganlyniad, mae calon Efnysien yn diffygio.</p>	<p>Tynna Saunders Lewis sylw at y ffaith bod cysylltiad rhwng Efnysien a'r pair o'r cychwyn. Efnysien oedd achos rhoi'r pair i'r Gwyddelod, ac felly, ef sy'n gyfrifol am ladd ei gydwladyr. Dyma a wêl Efnysien yma. Fel y dywed Saunders Lewis – <i>'Gwêl yntau hynny ar yr awr olaf a thrwy hollti ei galon â'r Pair y mae'n achub seithwyr o'i bobl. Mae'r cysylltu mor gywrain, mor seicolegol dreiddgar a phriodol, ni ellir llai na rhyfeddu ato. Nid hynny'n unig. O Iwerddon y daethai'r Pair. Gwrthododd y Gwyddyl ef. Rhoir ef yn ôl iddynt a bu agos iddo ennill y dydd iddynt. Efnysien fu achos y rhoi; ef sy'n dinistrio'r rhodd.'</i></p> <p>Mae'n arwyddocaol nad dweud am ei fwriad mewn deialog mae Efnysien yma ond <i>'dywot yn y uedwl'</i>. Drwy ymsonau byrion a'i weithredoedd byrbwyll y down i adnabod cymeriad Efnysien. Mae'n cadw pethau iddo'i hun yn hytrach na chyfathrebu ei deimladau ag eraill. Fel y dywed yr Athro Sioned Davies – <i>'Dyn unig ydyw, sy'n teimlo ei fod wedi cael cam, a'r cyfan yn corddi y tu mewn iddo'</i>.</p>	<p>Mae enghraifft bellach o Efnysien yn meddwl iddo'i hun wrth iddo baratoi i daflu Gwern i'r tân – <i>'Y Duw y dygaf uyg kyffes, heb ynteu yn y uedwl'</i>.</p>

Digwyddiadau	Arwyddocâd	Cyd-destun
	<p>Mae'r weithred hon yn ymddangos yn groes i gymeriad Efnysien yng ngweddill y chwedl. Drwgweithredu fu Efnysien drwy'r rhan fwyaf o'r chwedl, ond yma mae'n aberthu ei hun er mwyn achub ei deulu a'i gydwladwyr. Awgrymir felly nad yw Efnysien yn ddrwg i gyd. Fel y dywed yr Athro Sioned Davies – <i>'Ceir rhyw awgrym, fodd bynnag, yn ei weithred olaf un, fod gobaith hyd yn oed i'r pechadur mwyaf wrth iddo edifarhau a cheisio gwneud iawn am ei ddrwgweithredoedd'</i>.</p> <p>Gellir gweld cysylltiad rhwng marwolaeth Efnysien a marwolaeth Branwen. Yma mae Efnysien yn ymestyn yn y pair – <i>'yny dyrr y peir yn pedwar dryll, ac yny dyrr y galon ynteu'</i>. Torcalon oedd achos marwolaeth Branwen hithau, wrth iddi syllu ar y ddwy ynys a ddifethwyd o'i hachos hi – <i>'A dodu ucheneit uawr, a thorri y chalon ar hynny'</i>. Yn ychwanegol at hynny mae Efnysien yn torri'r pair yn bedwar darn a <i>'bed petryal'</i>, bedd pedair ochr, sydd i Branwen ar y diwedd.</p>	<p>Un o weithredoedd dieflig Efnysien yw difrodi ceffylau Matholwch. Mae'r hyn a wnaeth iddynt yn greulonach na'u lladd. Gellid gweld ei weithred yn gwasgu pennau'r milwyr a guddiwyd yn y sachau croen fel un farbaraid, ond eto, achub gwŷr Ynys y Cedyrn rhag ymosodiad a wnaeth. Efallai mai'r weithred greulonaf oedd taflu Gwern i'r tân.</p> <p>Mae cysylltiad rhwng Efnysien a Branwen o'r cychwyn. Anfodlonrwydd gan na chysylltodd neb ag ef ynglŷn â phriodas Branwen a gychwynnodd bopeth. Dywed Saunders Lewis bod ymdeimlad o berthynas losgachol rhwng Branwen ac Efnysien – <i>'Tybed nad oes yma fwy nag awgrym o gariad llogach? Does dim hafal i hynny am fagu unigrwydd sy'n uffern'</i>.</p>
<p>Yr unig fuddugoliaeth a gaiff gwŷr Ynys y Cedyrn yw i saith milwr lwyddo i ddianc ac i Bendigeidfran gael ei drywanu â gwaywffon wenwynig</p>	<p>Er i Efnysien sicrhau buddugoliaeth i wŷr Ynys y Cedyrn, pwysleisia'r Athro Sioned Davies <i>'mai buddugoliaeth wag yw hon'</i>, sef bod saith yn unig, ynghyd â Branwen wedi dianc yn fyw.</p> <p>Mae'r ffaith mai dyrnaid yn unig sy'n goroesi mewn brwydr ffyrnig yn syniad cyffredin mewn cyfnod arwrol. Gellir cymharu hyn â'r Gododdin, lle mae Aneirin yn nodi mai un yn unig sy'n dychwelyd o frwydr Catraeth. Mae lle arall yn nodi mai tri sy'n dychwelyd. Mewn cerdd o'r Canol Oesoedd, 'Preiddiau Annwfn' sonnir am y brenin Arthur yn hwylio i Annwfn i ddwyn pair lledrithiol. Yn ôl y gerdd, saith gwŷr yn unig sy'n dychwelyd. Dadleua rhai ysgolheigion mai fersiwn wahanol ar yr un hanes a geir yno. Mae'r Athro Sioned Davies yn nodi <i>'yn sicr, mae sawl elfen sydd yn gyffredin rhyngddynt'</i>.</p>	<p>Mae hefyd yn drychinebus i'r Gwyddelod. Cawn wybod ar ddiwedd y gainc fod pum gwraig feichiog a'u pum mab wedi'u gadael yn lwerddon, ac iddynt wladychu'r wlad drwy i'r bechgyn, wedi iddynt aeddfedu, gysgu gyda mamau'i gilydd, ac yna iddynt gasglu cyfoeth drwy ymweld â safleoedd y brwydrau i ddarganfod trysorau.</p> <p>Roedd arwyddocâd cyfrin i'r rhif saith yn y Canol Oesoedd. Caiff ei ystyried yn rhif lwcus hyd heddiw. Saith gwŷr a adawyd i warchod yr ynys pan aeth Bendigeidfran i lwerddon i achub Branwen hefyd.</p>

Digwyddiadau	Arwyddocâd	Cyd-destun
	<p>Mae'r ffaith i Bendigeidfran gael ei daro â gwaywffon wenwynig ac na fu farw yn dangos ei fawredd a'i hudoliaeth. Wrth iddo gael ei daro â'r waywffon wenwynig ceir awgrym hefyd o dwyll y Gwyddelod.</p> <p>Gellid tynnu sylw at arwyddocâd rhai o'r saith enw yma:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pryderi – dyma'r unig gymeriad sy'n ymddangos ym mhob un o'r pedair cainc. Cawn sôn am ei enedigaeth yn y gainc gyntaf, ei briodas â Cigfa yn y drydedd a'i farwolaeth wedi i Gwydion a Gilfaethwy ei dwyllo yn y bedwaredd. Awgrymodd rhai ysgolheigion mai Pryderi oedd y llinyn cyswllt rhwng y pedair cainc, ac mai hanes ei fywyd fyddai'r 'mabinogi' gwreiddiol.</li> <li>• Manawydan – brawd cyfan i Bendigeidfran a Branwen a hanner brawd i Nysien a Efnysien.</li> <li>• Taliesin – Bardd enwog oedd yn canu i Urien Rheged a'i fab Owain yn yr Hen Ogledd yn ystod y chweched ganrif. Ymddengys Taliesin fel cymeriad chwedlonol hefyd mewn sawl ffynhonnell ganoloesol. Yn y gerdd, 'Preiddiau Annwfn' hwylia gyda'r Brenin Arthur i ddwyn y pair lledrithiol, ac yn chwedl Taliesin caiff ei aileni gan Ceridwen wedi iddi ei lynnu pan oedd ef yn hedyn a hithau'n iâr.</li> <li>• Heilyn – ystyr yr enw yw rhywun sy'n gweini, diod yn arbennig.</li> </ul>	<p>Caiff mawredd a hudoliaeth Bendigeidfran ei awgrymu hefyd drwy ei faint anghyffredin, y ffaith na chaiff ei gynnwys mewn llong na thŷ, y gall orwedd fel pont ar draws yr afon ac y gall warchod ei wŷr hyd yn oed ar ôl ei farwolaeth.</p> <p>Gwelir enghreifftiau pellach o dwyll y Gwyddelod yn y ffaith iddynt geisio cadw cosb Branwen yn gyfrinach drwy rwystro unrhyw unrhyw rhag mynd a dod o Iwerddon i Ynys y Cedryn, ac wrth iddynt guddio milwyr yn y sachau croen a adawyd ar golofnau'r tŷ a adeiladwyd i anrhydeddu Bendigeidfran.</p> <p>Cyfeirir at Manawydan ar gychwyn y gainc lle mae Bendigeidfran yn ei yrru fel rhan o'r osgordd i gymodi â Matholwch yr ail waith, pan fo'n mynnu gadael heb ganiatâd wedi sarhad Efnysien.</p>

Digwyddiadau	Arwyddocâd	Cyd-destun
<p>Trefna Bendigeidfran iddynt dorri ei ben ac mae'n rhoi cyfarwyddiadau iddynt beth fydd yn digwydd nesaf.</p> <p>Dywed wrthynt fod angen iddynt fynd â'i ben i'w gladdu yn y Gwynfryn yn Llundain a'i osod yn wynebu Ffrainc. Byddant yn Harlech am saith mlynedd yn gwledda ac Adar Rhiannon yn canu iddynt. Yna, treuliant bedwar ugain mlynedd yng Ngwales ym Mhenfro a'r pen yn gwmni dymunol iddynt. Gallant aros yno felly nes yr agorir y drws tuag at Aber Henfelen a Chernyw, ond pan ddigwydd hynny, rhaid prysuro i Lundain i gladdu'r pen.</p>	<p>Gwelir mawredd a chryfder Bendigeidfran fel brenin yma, o'i gymharu â gwendid Matholwch. Mae Bendigeidfran yn gwarchod ei wŷr a'i genedl, hyd yn oed ar ôl ei farwolaeth. Yma mae'n rhoi cyfarwyddiadau clir i'w wŷr, ond ei swyddogion sy'n rhoi'r cyfarwyddiadau ac yn dylanwadu ar Matholwch. Gwelir yr awdur yn ymdrin â thema brenhiniaeth wrth gyfosod gweithredoedd Bendigeidfran a Matholwch.</p> <p>Awgrymwyd mai'r man lle mae Tŵr Llundain heddiw oedd y Gwynfryn. Awgrymodd Syr Ifor Williams hefyd y gallai fod y bryn lle mae eglwys St Paul.</p> <p>Caiff Bendigeidfran ei gladdu yn wynebu Ffrainc. Ar ddiwedd y gainc nodir na ddeuai unrhyw ymosodiad tra byddai'r pen wedi'i guddio yno. Cyfeirir at gladdu'r pen fel un o'r tri chuddiad ffodus ar ddiwedd y chwedl ond gan ychwanegu mai un o'r tri datguddiad anffodus oedd datgladdu'r pen, ond heb roi unrhyw fanylion sut y bu hynny. Mae testun Trioedd Ynys Prydain hefyd yn nodi claddu pen Bendigeidfran fel un o'r tri chuddiad ffodus ond yno nodir mai Arthur a ddatguddiodd y pen gan iddo fod yn rhy falch i ganiatáu neb ond ef ei hun i fod yn gyfrifol am amddiffyn Ynys Prydain.</p> <p>Mae'r ffaith bod Bendigeidfran yn parhau i amddiffyn Ynys y Cedyrn, hyd yn oed wedi ei farwolaeth, yn datgelu ei gymeriad cadarn a chyfrifol.</p> <p>Gall Harlech olygu craig (llech) hardd neu craig ardd (uchel). Yn ôl y stori, roedd gan Bendigeidfran lys yn Harlech, er mai yn Aberffraw yr oedd ei brif lys, ac yno y bu priodas Matholwch a Branwen.</p>	<p>Gwelir cryfder Bendigeidfran mewn rhannau eraill o'r chwedl, fel y modd mae'n ymateb i'r argyfwng a achosodd Efnysien drwy ddifrodi'r ceffylau, y ffordd mae'n ymateb yn sydyn i'r wybodaeth am gosb Branwen drwy gasglu ei filwyr a thrwy weithredu fel pont i'w filwyr dros yr afon.</p> <p>Yma mae'r chwedl yn cychwyn ac yn gorffen. Ar graig Harlech yr oedd Bendigeidfran a'i osgordd yn eistedd pan welsant dair llong ar ddeg Matholwch yn nesáu ar ddechrau'r chwedl.</p>

Digwyddiadau	Arwyddocâd	Cyd-destun
	<p>Mae Adar Rhiannon yn cysylltu â thema hudoliaeth gan fod pwerau arbennig gan y tri aderyn sy'n canu iddynt yn ystod gwledd. Eu cân hwy yw'r gân fwyaf swynol erioed, ac er eu bod yn bell oddi wrth y gwrandawr, mae'r sain yn hollol glir. Mae cyfeiriad atynt yn chwedl 'Culhwch ac Olwen' hefyd gan mai un dasg a roddir i Culhwch cyn y caiff briodi Olwen yw dod o hyd i Adar Rhiannon sy'n deffro'r meirw ac yn peri i'r byw gysgu gyda'u cân. Mae Rhiannon yn gymeriad yng nghainc gyntaf y Mabinogi.</p> <p>Yma nodir y gall y pen oroesi ar wahân i gorff Bendigeidfran. Mae olion archaeolegol a chyfeiriadau llenyddol yn awgrymu pwysigrwydd y pen i'r Celtiaid, neu '<i>Cwlt y pen dynol</i>' fel y cyfeiria'r Athro Sioned Davies ato. Mae'n debyg bod y Celtiaid yn credu mai yn y pen yr oedd yr enaid, a'i fod yn gysegredig. Credent bod galluoedd rhyfeddol yn y pen. Ymddengys fod y Celtiaid yn torri pennau eu gelynyon mewn brwydrau ac yn eu cario adref gyda nhw.</p> <p>Wrth gyfeirio at '<i>Gwales ym Penuro</i>' tynnir sylw at leoliad yr ail wledd lle y bu'r cwmni am bedwar ugain mlynedd. Mae Ynys Gwales (Grassholm yn Saesneg) wyth milltir oddi ar arfordir Penfro. Mae lle paradwysaidd yma, ond daw'r cyfnod yma i ben wrth i Heilyn ap Gwyn agor y drws. Yn aml, mewn chwedlau sy'n disgrifio lle paradwysaidd, daw'r cyfnod yno i ben drwy gyflawni rhyw weithred waharddedig, fel Adda ac Efa'n bwyta'r ffrwyth gwaharddedig yn y Beibl. Mae sawl stori sy'n cael eu cysylltu â'r ynysoedd oddi ar Sir Benfro lle yr awgrymir rhyw elfen hudol a mynediad i fydoedd eraill.</p> <p>Credir mai enw ar Fôr Hafren, y môr rhwng Cymru a Chernyw yw Aber Henfelen.</p>	<p>Cawn gyfeiriad at nifer o wleddoedd arwyddocaol yn y chwedl. Mae gwledd briodas Branwen a Matholwch a'r wledd i gymodi pan fo Bendigeidfran yn rhoi'r Pair Dadeni i Frenin Iwerddon. Ynghyd â hynny, ceir dwy wledd arallfydol, un yn Harlech a'r llall ar Ynys Gwales. Fel y dywed yr Athro Sioned Davies, '<i>Un o nodweddiad y wledd arallfydol yn ôl ffynonellau Celtaidd yw cerddoriaeth hudol, yn ogystal â digonedd o fwyd a diod</i>'.</p> <p>Wrth i'r hyn sy'n cael ei ddarogan gan Bendigeidfran yma gael ei wireddu ar ddiwedd y chwedl ceir mwy o fanylion, ond nid oes disgrifiad manwl. Mae ar yr ynys neuadd hardd uwchben y môr, gyda thri drws, dau yn agored a'r trydydd ynghau. Mae'r saith a ddihangodd o Iwerddon yn gwledda yma am bedwar ugain mlynedd, yn berffaith hapus a bodlon a heb heneiddio nes i Heilyn ap Gwyn agor y drws gwaharddedig.</p>

	<b>AA2 – Ymateb i destun</b>
<b>12-15</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos gwybodaeth drylwyr am y testun</li> <li>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad</li> <li>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol</li> <li>• enghreifftio'n effeithiol wrth ateb</li> </ul>
<b>10-11</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos gwybodaeth fanwl am y testun</li> <li>• arddangos dealltwriaeth sicr o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad</li> <li>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus</li> <li>• enghreifftio addas a phwrpasol wrth ateb</li> </ul>
<b>8-9</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos gwybodaeth fanwl am y testun ar adegau</li> <li>• arddangos dealltwriaeth dda o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad</li> <li>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus</li> <li>• enghreifftio addas wrth ateb</li> </ul>
<b>5-7</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos peth gwybodaeth am y testun</li> <li>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad</li> <li>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau</li> <li>• cyfeirio at y testun</li> </ul>
<b>3-4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos gwybodaeth arwynebol am y testun</li> <li>• cyfeirio at rai elfennau penodol o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad</li> <li>• cyflwyno rhai syniadau</li> <li>• cyfeirio at y testun yn achlysurol</li> </ul>
<b>0-2</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.</li> </ul>

Aralleirio darn yn y papur arholiad – dim mwy na 4 marc.

Aralleirio darn a chyfeirio at weddill y chwedl – dim mwy na 7 marc.

- (b) Dylai'r ymgeiswyr ddefnyddio'r dyfyniad yn sylfaen i'w hateb a chyfeirio at rannau perthnasol eraill o'r chwedl.

Disgwylir i'r ymgeiswyr ddyfynnu'n ddeallus er mwyn cefnogi gosodiad neu safbwynt am thema hudoliaeth yn y chwedl.

Gwobrwyir ymgeiswyr sy'n gallu dangos eu bod nhw wedi deall dehongliadau ysgolheigion o'r chwedl.

Disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi deall cysyniadau megis:

- Cred yr Athro Brynley F. Roberts bod llawer o hudoliaeth neu'r goruwchnaturiol yn sail i'r mabinogi: '*Nid er difyrwch y lluniwyd y chwedlau hyn, ac nid er esbonio hynodion bro neu dras cenedl y crëwyd y storïau, er bod elfennau llên gwerin yn amlwg ynddynt. Olion mytholeg y Brythoniaid sydd yma, eu cred am y Byd Arall – Annwfn – ac am ymweld y duwiau â dynion.*'
- Bendigeidfran, brenin Ynys y Cedyrn sy'n rhoi cyfarwyddiadau i'w ddynion yma, - '*A chymerwch chwi y penn, heb ef.*' Ef yw'r unig **gymeriad** yn y chwedl sydd â phwerau goruwchnaturiol er bod yr Athro Brynley F Roberts yn gweld adleisiau o dduwiau Brythonaidd yn amryw o brif gymeriadau'r pedair chwedl.
- Maint Bendigeidfran yw'r hynodrwydd pennaf. Fel y dywed Gwyn Thomas – '*Y mae maint aruthr Bendigeidfran yn dynodi ei arbenigrwydd, ac yn dweud wrthym fod ynddo olion hen dduw Celtaidd.*' Mae'n rhy fawr i allu cael ei gynnwys mewn tŷ na llong, mae'n ddigon mawr i ffurfio pont dros afon a gadael i'w filwyr gerdded drosto.
- Gall ei ben oroesi hyd yn oed wedi iddo gael ei dorri oddi wrth weddill ei gorff gan ei fod gystal cwmni i'w wŷr ag yr oedd cyn hynny – '*A'r penn a uyd kystal gennwch y gedymdeithas ac y bu oreu gennwch, ban uu arnaf i eiryoet.*' Cyfeirir ato yn Nhrioedd Ynys Prydain fel Tri Matgudd (cuddiad ffodus) – '*Penn bendigeituran uab llyr a guduwyt yn y gwynuryr yn llundein. ae wyneb ar ffreinc. a hyt tra uu yn yr ansawdd y dodet yno, ny doeï ormes Saesson byth yr ynys honn.*'
- Mae'n bosibl bod y ffaith i Bendigeidfran gael ei glwyfo yn y frwydr olaf - '*a brathu Bendigeiduran yn y troet a guenwynwaew,*' - yn ymgais i'w wneud yn fwy meidrol. Eto, nid yw'n marw ac mae ei ben yn parhau'n '*dilwgyr*' nes agor y drws gwaharddedig. Roedd cred ymhlith y Celtiaid bod yr enaid yn cael ei gadw yn y pen ac felly ei fod yn gysegredig. Byddai'r Celtiaid yn dychwelyd o frwydr gyda phennau eu gelynyon. Dywed yr Athro Gwyn Thomas sut y byddent '*yn eneinio pennau'r pwysicaf o'r gelynyon hynny ag olew a'u cadw mewn cistiau, er mwyn eu harddangos, gyda balchder, o dro i dro. Yr hen gred hon sydd yn esbonio pam y mae pen Bendigeidfran yn dal i siarad ar ôl cael ei dorri, a pham y mae o'n gwmni mor ddiddan.*'
- Mewn llawer o chwedlau a llên gwerin, cymeriad cas, peryglus yw'r cawr. Felly y mae Ysbaddaden Bencawr yn 'Culhwch ac Olwen'. Fodd bynnag, yma, defnyddio'i bwerau er daioni mae Bendigeidfran – er mwyn achub ei chwaer rhag cosb annheg, er mwyn cynnal ei wŷr a chynnig arweiniad ymarferol y mae'n gweithredu fel pont. Pan ddaw ar draws cymeriadau pwerus eraill, fel Llasar Llaes Gyfnewid a'i wraig, Cymidai Cymeinfoll, mae'n ddoeth yn y ffordd mae'n ymdrin â nhw ac yn cael y gorau o'r sefyllfa. Fel y dywed yr Athro Sioned Davies, '*Pan ddaw ar draws Llasar a'i wraig, y ddau gymeriad arallfydol hynny a ddringodd allan o Lyn y Pair yn Iwerddon, gwelwn mor wahanol yw ei ymateb iddynt o gymharu ag ymateb Matholwch – trwy ymddwyn yn bositif a'u croesawu, mae ei benderfyniad ef, ochr yn ochr â phenderfyniad Matholwch, yn awgrymu'n glir beth sydd orau i'w wneud yn sgil cyfarfyddiad â grymoedd lledrithiol.*'

- Gan Llasar Llaes Gyfnewid a'i wraig y daw'r **eiddo** hudol a welir yma – y Pair Dadeni. Dyma'r unig gymeriadau eraill sy'n fawr o ran maint yn y chwedl. Dyma ddisgrifiad Matholwch ohonynt – *'A mi a welwn gwr melyngoch, mawr, yn dyuot o'r llyn, a pheir ar y geuyn. A gwr heuyt athrugar, mawr, a drygweith anorles arnaw oed; a gwreic yn y ôl; ac ot oed uawr ef, mwy dwyweith oed y wreic noc ef'*. Cadarnheir eu hudoliaeth drwy'r pair a garia Llasar Llaes Gyfnewid ar ei gefn o Lyn y Pair yn Iwerddon. Mae hynodrwydd arbennig i'r eiddo hwn – mae'n atgyfodi milwyr a laddwyd o fewn diwrnod, ond na fyddant yn gallu siarad. Tynna'r Athro Gwyn Thomas sylw at y ffaith bod peiriau'n bwysig mewn celfyddyd Geltaidd a chwedloniaeth Iwerddon. Ceir cyfatebiaethau rhwng y Pair Dadeni a golygfa ar un o'r peiriau enwocaf – Pair Gundestrup o Ddenmarc (150 – 50 cc) lle mae llun o ddyn enfawr ar fin trochi milwr mewn rhyw fath o bair, sy'n cyfateb i'r hyn a geir yn y rhan hon o'r chwedl – *'a dyuot deu Wydel uonllwm idaw, a'y uwrw yn y peir yn rith Gwydel'*. Ceir cyfeiriadau eraill at beiriau mewn llenyddiaeth Gymraeg ganoloesol, fel un o dri thlws ar ddeg Ynys Prydain – Pair Dyrnwch Gawr – oedd yn cael ei ddefnyddio i wahaniaethu rhwng gwŷr dewr a llwfr.
- Tua diwedd y chwedl y cyfeirir at un arall o'r eiddo hudol, sef mantell Caswallon, cefnder Bendigeidfran. Llwyddodd Caswallon i drechu'r milwyr a adawyd i warchod Ynys y Cedyrn tra oedd Bendigeidfran yn Iwerddon drwy wisgo'r fantell a'i gwnâi yn anweledig, gan yna, ladd y milwyr a neb yn gallu ei weld. Yn wahanol i Bendigeidfran, defnyddio'i hudoliaeth i ddinistrio a wna Caswallon.
- Mae elfen o hudoliaeth, o bosibl, yn y ffordd y mae Branwen yn 'meithryn ederyn drydwen . . . ar dal y noe gyt a hi, a dyscu ieith idi' er mwyn i'r aderyn gario ei neges ynglŷn â'i chosb i Bendigeidfran. Mae'r Athro Sioned Davies yn tynnu sylw bod y drudwy yn enwog am allu dynwared. Dywed y testun i Branwen 'dyscu ieith' i'r aderyn ac efallai bod hynny'n awgrymu y gallu i siarad mewn fersiynau cynharach o'r chwedl. Yma, y gallu i ddeall cyfarwyddiadau Branwen sydd ei angen gan fod llythyr yn cael ei glymu am fôn ei adain. Awgryma Sioned Davies i hyn gael i ychwanegu 'wrth i'r gair ysgrifenedig ddod yn bwysicach, teimlid efallai fod yn rhaid cael llythyr ffurfiol i'w drosglwyddo i'r brenin.'
- Yn y dyfyniad cyfeirir at **ddigwyddiad** arallfydol y mae Bendigeidfran wedi ei baratoi ar gyfer ei wŷr wedi iddo gael torri ei ben. Cyfeiria at wleddoedd – *'yn Hardlech y byddwch seith mlynedd ar ginyaw'* ac yna *'y Gwales ym Penuro y byddwch pedwarugeint mlynedd'*. Drwy'r gwleddoedd hyn gallant ohirio poen, galar a henaint nes i Heilyn fab Gwyn agor y drws gwaharddedig. Dim ond bryd hynny y maent yn sylweddoli maint y drygioni a ddaeth i'w rhan.
- Mae'r Athro Sioned Davies yn gweld sawl motiff yn y disgrifiadau o'r gwleddoedd hyn sy'n cysylltu â'r syniad o Annwfn neu'r arallfyd. Mae Pwyll yn ymweld ag Annwfn yn y gainc gyntaf, a cheir cyfeiriad yma at sawl motiff sy'n cysylltu â'r syniad mewn llenyddiaeth ryngwladol – *'cerddoriaeth hudol, digonedd o fwyd a diod, amser yn sefyll yn stond a neb felly yn heneiddio, amod ynglŷn ag aros yn y baradwys. Mae'r amser ar Ynys Gwales, yn arbennig, yn cynrychioli'r cyfnod mwyaf hapus a dymunol a dreuliodd y gwŷr erioed: ni cheir arlliw o'r gofidiau a'u poenai pan ar y tir mawr – cynnen, sarhad, dial'*.
- Rhan o'r digwyddiad hudol yw clywed *'Adar Riannon yn canu ywch'*. Mae tri aderyn, a'u cân yn fwy swynol nag unrhyw gân a glywyd erioed. Maent ymhell allan i'r môr ond eto gellir eu clywed yn glir. Ceir cyfeiriad at yr adar hyn yn chwedl *'Culhwch ac Olwen'* hefyd, lle yr honnir iddynt allu deffro'r meirw a huno'r byw. Mae Rhiannon yn gymeriad canolog yn y chwedl gyntaf a chanddi gysylltiad â cheffylau. Dadleua rhai bod adlais yma o'r dduwies Geltaidd Epona, sef duwies y ceffylau.

- Ni cheir disgrifiadau manwl o'r naill le na'r llall – Harlech na Gwales. Mae'r Athro Sioned Davies yn eu disgrifio fel '*lleoliadau trothwyol, rhyw dir neb, nid o'r byd hwn ac nid o'r byd arall*'. Creu awyrgylch arallfydol, hudolus mae'r awdur. Heilyn ap Gwyn a gaiff y bai am ddod â'r hud i ben drwy agor y drws, ond mewn gwirionedd nid oes ganddo ddewis oherwydd mae Bendigeidfran wedi rhagweld hyn ac eisoes wedi trefnu beth fyddai'n digwydd wedyn. '*Ac o'r pan agoroch y drws hwnnw, ny ellwch uot yno. Kyrchwch Lundein y gladu y penn. A chyrchwch chwi ragoch drwod*'.
- Mae'r ffaith bod lleoliad y wledd ar Ynys Gwales hefyd yn arwyddocaol. Mae gynsoedd yn cael eu gweld fel llefydd lledrithiol, ac mae llawer o goelion lleol am Gwales (Ynys Grassholm) fel cartref i'r tylwyth teg, a sonnir am ynys hudol yn arnofio yno.
- Mae'r digwyddiadau lledrithiol hyn yn y lleoliadau lledrithiol yn cael eu hailadrodd yn y chwedl. Mae Bendigeidfran yn rhoi'r cyfarwyddiadau i'w wŷr ac yna ailadroddir yr union ddigwyddiadau. Mae ailadrodd fel hyn yn elfen gyffredin mewn chwedlau fel ffordd o greu tensiwn ond hefyd er mwyn paratoi'r gynulleidfa at ddigwyddiadau trasig.

	<b>AA2 – Ymateb i destun</b>
<b>12-15</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dadansoddi cymeriadau/themâu yn ddeallus, yn glir a diamwys a dangos eu harwyddocâd</li> <li>• crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig</li> <li>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau</li> <li>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol</li> <li>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio'n effeithiol</li> </ul>
<b>10-11</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dadansoddi cymeriadau/themâu yn eithaf deallus a dangos eu harwyddocâd</li> <li>• crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol</li> <li>• arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau</li> <li>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus</li> <li>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio addas a phwrpasol</li> </ul>
<b>8-9</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cymeriadau/themâu</li> <li>• crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir</li> <li>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau</li> <li>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus</li> <li>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio addas</li> </ul>
<b>5-7</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cymeriadau/themâu</li> <li>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir</li> <li>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau</li> <li>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau</li> <li>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio</li> </ul>
<b>3-4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos gwybodaeth am gymeriadau/themâu</li> <li>• cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol</li> <li>• rhesymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun</li> <li>• cyflwyno rhai syniadau</li> <li>• dyfynnu/enghreifftio'n achlysurol</li> </ul>
<b>0-2</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.</li> </ul>

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol i 1(a) ac 1(b). (15)

<b>AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig</b>	
<b>12-15</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw</li> <li>• saernïo gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc</li> <li>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith</li> <li>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen</li> </ul>
<b>10-11</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw</li> <li>• saernïo gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc</li> <li>• arddangos adnoddau iaith da</li> <li>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen</li> </ul>
<b>8-9</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir</li> <li>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc</li> <li>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith</li> <li>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen</li> </ul>
<b>5-7</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon</li> <li>• dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno gwaith</li> <li>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith</li> <li>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen</li> </ul>
<b>3-4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac effeithiol</li> <li>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith</li> <li>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas</li> <li>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen</li> </ul>
<b>0-2</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig.</li> </ul>

Tynnu 2 farc am iaith os nad yw ymgeisydd wedi ateb y ddau isgwestiwn.

**Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.**

### **Asesiad Synoptig**

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu'n synoptig yng nghwestiwn 1 wrth iddynt ddatblygu ymhellach y sgiliau canlynol: e.e. dadansoddi cymeriadaeth / themâu a defnyddio iaith ysgrifenedig. Disgwylir iddynt hefyd wneud cysylltiadau rhwng y testun gosod yn y gyfrol *Gwerthfawrogi'r Chwedlau* neu'r testun sydd yn yr adnodd *Branwen Ferch Llŷr* ar wefan adnoddau CBAC adnoddau.cbac.co.uk a diweddariad o'r chwedl gyfan. [45]

## Cwestiwn 2

### Yr Hengerdd a'r Cywyddau

Mae 45 marc i'r cwestiwn cyfan. Rhoddir 15 marc am AA2 – Ymateb i destun i 2 (a) a'r un modd i 2 (b). Rhoddir 15 marc am AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig ar draws y ddau isgwestiwn.

- (a) Disgwylir i ymgeiswyr drafod cefndir y gerdd yng nghyd-destun y traddodiad yn yr Oesoedd Canol. Dylent berthnasu'r cefndir i'r dyfyniad dan sylw.

Disgwylir i'r ymgeiswyr ddeall dylanwad newidiadau cymdeithasol ar y gyfundrefn farddol a chynnwys elfennau megis y canlynol yn eu hatebion:

- Mae Dafydd ap Gwilym ymhlith y beirdd amlycaf yn y Gymraeg erioed.
- Ceir traddodiad yn nodi iddo gael ei eni ym Mrogynin yn ardal Aberystwyth tua 1320 – 1330.
- Roedd yn fab i Gwilym Gam ab Gwilym ab Einion.
- Roedd yn aelod o deulu o uchelwyr dylanwadol yn y Deheubarth, ei ewythr, Llywelyn ab Gwilym yn gwnstabl yn y Castell Newydd yn Emlyn ac ar ochr brenin Lloegr. Mae'r rhan yma o'r cywydd yn darlunio mis Mai fel marchog ac yn defnyddio amrywiaeth o dermau a chysyniadau milwrol – '*cadarn farchog . . . goresgyn . . . rhyfel rhew . . . pill doldir . . . yn diffryd . . .*' Mae lifrai a gwisgo hefyd yn amlwg yma.

*'Gwasgod praff, gwisgiad priffyrdd,  
Gwisgai bob lle â'i we wyrdd.*

Gallai'r lifrai gwydd hyn adleisio arfer milwyr (yn arbennig rhai o Gymru) o wisgo lifrai gwyrdd a gwyn yng nghyfnod Dafydd ap Gwilym. Tynna Dr Dylan Foster Evans sylw at y ffaith fod perthynas i Dafydd, Syr Rhys ap Gruffudd yn amlwg yn yr ymosodiad ar Ffrainc yn 1346 ac mae'n bosibl bod y '*marchog yng ngherdd Dafydd sy'n gosod ei ddefnydd gwyrdd dros y wlad yn adlais o ffigwr fel Syr Rhys, a fu'n arwain milwyr o Gymru wedi eu gwisgo mewn dillad gwyrddion*'.

- Mae'n bosibl mai Llywelyn ap Gwilym a gyflwynodd Dafydd i farddoni ac ef, o bosibl, oedd ei athro barddol.
- Roedd Llywelyn yn berchen ar sawl llys, ac mae'n bosibl mai yno y daeth Dafydd ap Gwilym i gysylltiad ag elfennau o'r cyfandir a ddylanwadodd ar ei waith.
- Roedd Dafydd ap Gwilym yn un o'r cywyddwyr cynnar. Daeth nawdd y tywysogion i ben a chymerodd yr uchelwyr a swyddogion yr eglwys y cyfrifoldeb o noddi'r beirdd. Gyda hyn, datblygwyd y cywydd, o fesur y traethodl mae'n debyg, a datblygwyd y gynghanedd a Dafydd yn un o'r rhai a wnaeth hyn.
- Gan fod Dafydd ap Gwilym yn uchelwr ei hun, doedd dim rhaid iddo glera er mwyn ennill bywoliaeth. Dylanwadodd hynny ar themâu ei ganu. Gwelir pwyslais ar natur yn ei gerddi, ac yma, natur yn ei holl ogoniant ym mis Mai a geir – '*glwysgor glasgoed*'. Pwysleisia mor lliwgar yw ei gynefin – '*niwl gwyn*', '*irddail ar wiail wŷdd*', '*we wyrdd*', '*glaswydd*' ac mor llawn sŵn – '*caniadau cywion adar, / A chog ar fan pob rhandir, / A chethlydd . . .*', '*Ac adar aml ar goedydd*'. Fel y dywed Gwyn Thomas: '*Mae ei haf yn dynodi bywyd yn hyrddio drwy'r cread ac y mae o'n cael ei gysylltu â charu yn y coed: mae hirlwm bywyd a chysgod marwolaeth yn ei aeaf*'. Mae'n cyfleu'r coed fel ystafell sy'n rhoi cyfle iddo garu.

- Roedd Saunders Lewis yn credu bod pwyslais Dafydd ar natur yn her uniongyrchol i'r ffordd yr oedd beirdd y cyfnod yn rhoi pwyslais ar foli uchelwyr a'u heiddo. Yn hollol i'r gwrthwyneb haerwyd bod y pwyslais ar natur yn dangos dylanwad beirdd gwlad, is eu statws ar Dafydd. Honnodd Dr John Rowlands bod Dafydd wedi defnyddio'r farddoniaeth draddodiadol Gymraeg a'r syniadau oedd ynghlwm wrthi fel delwedd fawr yn ei ganu serch a'i ganu natur. Cyfeiriodd Syr Ifor Williams hefyd at '*ganu'r werin Galan Mai*' fel ffynhonnell bosibl i rai o'r pethau a geir yn ei ganu. Byddai sylw i natur yn un o'r pethau hyn.
- Mae'r cyferbyniad rhwng yr haf a'r gaeaf yn amlwg mewn llawer o gywyddau Dafydd ap Gwilym, fel ag y mae yma. Awgryma Huw Meirion Edwards y gall y gwrthgyferbyniad rhwng mis Mai a mis Tachwedd yma fod yn '*adlais o gonfensiwn yr ymryson rhwng haf a gaeaf a oedd yn gyffredin yn llenyddiaeth y cyfnod*'.
- Mae hyn yn cysylltu â thema bwysig arall gan Dafydd, sef serch. Pwysleisia yma mor bwysig a niferus oedd y cyfarfyddiad serchus rhyngddo â'r ferch – '*a chyffro saith nawtro serch*', a sut mai mis Mai, '*cyfaill cariad ac adar*' oedd yn hwyluso hyn drwy fod yn '*[g]ennad nawugain cynnadl*'.
- Cyfeirir yma at '*Forfudd f'eurferch*'. Canai i ddwy ferch yn arbennig – Morfudd a Dyddgu. Roedd Morfudd yn wraig briod a honnir iddi fod yn wrthrych serch mewn tua 90 o gerddi Dafydd. Ei gŵr oedd un a llysenwid 'Y Bwa Bach'. Ceir tystiolaeth hanesyddol mewn cofnodion cyfreithiol fod dyn o'r enw 'Y Bwa Bach' wedi byw yn ardal Aberystwyth. Mae Syr Ifor Williams yn awgrymu mai teipiau o ferched oedd Morfudd a Dyddgu, ond dadleua Syr Thomas Parry eu bod yn gymeriadau o gig a gwaed.
- Roedd Dafydd ap Gwilym yn rhan o'r traddodiad ond hefyd yn wahanol iddo gan ei fod o'n uchelwr ei hun. Dywed Gwyn Thomas amdano: '*Mae Dafydd ap Gwilym yn mynnu lle iddo'i hun yn hanes ein barddoniaeth, a hynny, nid am ei fod o'n sefyll o'r naill du i'r traddodiad ond am fod ei bersonoliaeth a'i athrylith fel sblash llachar o baent yn ei ganol o*'.

	<b>AA2 – Ymateb i destun</b>
<b>12-15</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig</li> <li>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau</li> <li>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol</li> <li>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol</li> </ul>
<b>10-11</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• crynhoi ffeithiau perthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol</li> <li>• arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau</li> <li>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus</li> <li>• defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol</li> </ul>
<b>8-9</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• crynhoi'r ffeithiau perthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir</li> <li>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau</li> <li>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus</li> <li>• defnyddio dyfyniadau addas</li> </ul>
<b>5-7</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd a'u cyflwyno'n gywir</li> <li>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau</li> <li>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau</li> <li>• defnyddio dyfyniadau</li> </ul>
<b>3-4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• arddangos gwybodaeth am gynnwys y bardd a'r gerdd a chyflwyno rhai ffeithiau perthnasol</li> <li>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun</li> <li>• cyflwyno rhai syniadau</li> <li>• dyfynnu'n achlysurol</li> </ul>
<b>0-2</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.</li> </ul>

(b) **Arddull y bardd**

(15)

Disgwylir y bydd ymgeiswyr yn:

- cynllunio atebion trefnus a chydlynol
- defnyddio dyfyniadau o'r cywydd yn eu hatebion er mwyn dadansoddi, yn ystyrion, sut y mae'r bardd yn trosglwyddo'i weledigaeth a thrwy wneud hynny werthfawrogi arddull y dyfyniad
- gallu cyfeirio at rai o'r nodweddion arddull a throadau ymadrodd hyn a **manylu ar eu heffeithiolrwydd:**
- **Mesur** – llinellau byrion a dau brif guriad yn y rhan fwyaf o linellau. *'Y mae rhuthr yr arwr ifanc i'r frwydr - a'i ruthr tuag at ei dranc creulon o gynnar – fel petai'n cael ei gyfleu gan guriadau'r mesur'*. Yr Athro Peredur Lynch
- **Gwrthgyferbyniad** – Pwysleisir ieuentid Owain fab Marro drwy'r gwrthgyferbyniad amlwg sy'n y llinell gyntaf – *'Greddf gŵr, oed gwas'*. Gŵr ifanc sydd yma ond mae wedi aeddfedu i fod yn filwr cyflawn yn gyflym iawn, Yn y cyfnod arwrol hwn roedd hynny'n gwbl angenrheidiol.
- Mae'r holl gerdd yn wrthgyferbyniad rhwng y darlun o Owain yn fyw yn y llinellau cyntaf (ll. 1-8) a thrueni ei farwolaeth yn ail hanner y gerdd (ll. 13-20). Mae hyn yn pwysleisio'r paradocs arwrol. Ceir yr argraff ar y cychwyn bod Owain yn fyw, ac atgyfnerthir hynny drwy ei gyfarch yn yr ail berson – *'Ni bi ef a fi / Cas yrhof a thi. / Gwell gwneif â thi, / Ar wawd dy foli'*. Yna daw'r cyfeiriadau at ei farwolaeth – *'Cynt ei waed i lawr / Nogyd i neithiawr. / Cynt i fwyd i frain / Nog i argyfrain'* aiff â ni at realiti ei golli. Fel y dywed Peredur Lynch, ceir paradocs arwrol yn y ffaith *'yn sgil ei arwriaeth, yn sgil ei barodrwydd i ymladd i'r eithaf a marw ar faes y gad y mae'r cof am Owain yn parhau am byth. Drwy ildio'i fywyd yn y fath fodd, fe sicrhodd anfarwoldeb iddo'i hunan yng nghanu'r beirdd, fe haeddodd hwn glod a mawl a fydd yn sicrhau bod y cof amdano yn parhau am byth'*.
- Ceir gwrthgyferbyniad trawiadol pellach rhwng y 'cas' – *'Ni bi ef a fi / Cas yrhof â thi'* a'r moli – *'Gwell gwneif â thi / Ar wawd dy foli'*. Mae, nid yn unig yn pwysleisio mor addas yw cadw'r cof am Owain yn fyw, ond mae'n amlgu ei gyfeillgarwch tuag ato hefyd. Byddai'n ffrind personol i'r bardd.
- Mae'r gwrthgyferbyniad *'Cynt ei waed i lawr / Nogyd i neithiawr'* yn pwysleisio ieuentid Owain.
- **Ailadroddir** yr un patrwm brawddegol gyda'r gwrthgyferbyniad *'Cynt i fwyd i frain / Nog i argyfrain'*. Pwysleisir trasiedi ei farwolaeth gyda'r darlun cignoeth o'r brain yn bwydo ar ei gorff cyn cael angladd ffurfiol, delwedd a ddefnyddir yn helaeth yn yr hengerdd.
- Mae'r **ddelfryd** arwrol yn amlwg yma. Pwysleisir dewrder Owain drwy uniongyrchedd y llinell *'Gwryd amddias'*. Brwydro oedd ei fyd.
- Mae'r **ansoddeiriau** a ddefnyddir yn ei ddirchafu – *'Meirch mwth myngfras'* a *'mainfuan'* – dim ond y gorau oedd yn ddigon da i'r ymladdwr hwn. Pwysleisir ei gyfoeth – *'Eddi aur aphan'*, ei offer gwych drwy'r **rhangymeriad** *'Ysgwyd ysgafn llydan'* er mwyn gallu amddiffyn yn gadarn a *'Cleddyfawr glas glân'* i ymosod yn ffyrnig. Dangosir urddas Owain drwy'r ansoddeiriau hyn.
- Mae'r **geiriau cyfansawdd** *'myngfras'*, *'mygrwas'* a *'mainfuan'* hefyd yn ychwanegu at ei urddas.

- Mae'n arwyddocaol bod Aneirin yn defnyddio'r **rhagenw** ail berson unigol – '*dy foli*' a'r trydydd person unigol – '*ei waed*' i gyfeirio at Owain. Pwysleisia agosatwydd Owain a'i bellter yr un pryd. Daw'r agosatwydd oherwydd y cyfeillgarwch arbennig sydd rhyngddynt fel bardd teulu ac aelod o'r osgordd, a'r pellter oherwydd yr hollt a ddaeth gyda'i farwolaeth.
- Pwysleisir rôl arbennig y bardd teulu yma wrth i Aneirin gofio am Owain fel '*cu cyfaillt*'. Mae'r **lleihad** '*Ni bi ef a fi / Cas yrhof â thi*' yn pwysleisio'i ddyletswydd i goffau'r arwr.
- Caiff yr arwr ei **enwi** ar ddiwedd y gerdd. **Trychir** yr enw '*Ywain . . . mab Marro*' er mwyn dangos pwysigrwydd parhad y cenedlaethau. Mae ei enwi ar y diwedd yn uchafbwynt teilwng i'r gerdd.
- Defnyddir y **ddelwedd** gignoeth o Owain yn '*fwyd i frain*' i bwysleisio'r ddefnydd arwrol. Mae'n fodlon aberthu ei fywyd dros ei arglwydd. Eto, dengys greulondeb ymladd, nid yn unig yn y chweched ganrif, ond ym mhob oes.
- Defnyddia'r bardd enghreifftiau o **arallenwad**, nodwedd amlwg yn y canu mawl a marwnad, drwy ddefnyddio'r cyfeiriad at Owain fel un â '*greddf gŵr*', ond '*oed gwas*', a '*gwryd amddias*'. Mae'r bardd, drwy'r troadau ymadrodd hyn yn defnyddio'r traddodiad i gyfleu i'r gynulleidfa brif nodweddion yr arwr. Felly hefyd y defnyddia'r elfennau **fformiwlai** fel y '*neithiawr*' a'r bwyd '*i frain*' i bwysleisio'r elfen arwrol.
- Defnyddir **cyflythreniad / cytseinedd** trawiadol i dynnu sylw at y gwrthgyferbyniad – '*Greddf gŵr, oed gwas; / Gwryd . . .*'
- Mae'r cyflythreniad / cytseinedd a geir yn '*Cleddyfawr glas glân*' yn awgrymu ergydion Owain wrth iddo ymladd, a chytsain feddal – '*meirch mwth myngfras / A dan forddwyd mygrwas*' yn awgrymu symudiad esmwyth, tawel a chyflym y ceffyl oddi tano wrth fynd i'r frwydr. Mae'r cyflythreniad / cytseinedd – '*Cu cyfaillt, Ywain; / Cŵl. . .*' yn hoelio sylw ar y berthynas a ddaeth i ben.
- Gwelir **odl fewnol** '*Ar bedrain mainfuan*' sy'n gwneud y canu yn fwy soniarus ac apelgar i'r glust.
- Gwelir yn y gerdd '*natur uniongyrchol a diwastraff*' y traethu fel y dywed yr Athro Peredur Lynch.
- Awryglch o falchder ac edmygedd a geir yn y gerdd. Er bod Aneirin yn gresynu colli Owain fab Marro, mae'n ymhyfrydu yn ei gampau a'i arwriaeth, ac yn awyddus i'w gofnodi a'i gofio.

	<b>AA2 – Ymateb i destun</b>
<b>12-15</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dadansoddi'n dreiddgar y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth</li> <li>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol</li> <li>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol</li> </ul>
<b>10-11</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dadansoddi'n effeithiol y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth</li> <li>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus</li> <li>• defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol</li> </ul>
<b>8-9</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dadansoddi'n foddhaol y nodweddion a'r technegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth</li> <li>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus</li> <li>• defnyddio dyfyniadau addas</li> </ul>
<b>5-7</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth</li> <li>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau</li> <li>• defnyddio dyfyniadau</li> </ul>
<b>3-4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull wrth geisio'u dadansoddi</li> <li>• cyflwyno rhai syniadau</li> <li>• dyfynnu'n achlysurol</li> </ul>
<b>0-2</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.</li> </ul>

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol ar gyfer 2 (a) a 2 (b). (15)

<b>AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig</b>	
<b>12-15</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw</li> <li>• saernïo gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc</li> <li>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith</li> <li>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen</li> </ul>
<b>10-11</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw</li> <li>• saernïo gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc</li> <li>• arddangos adnoddau iaith da</li> <li>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen</li> </ul>
<b>8-9</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir</li> <li>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc</li> <li>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith</li> <li>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen</li> </ul>
<b>5-7</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon</li> <li>• dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno gwaith</li> <li>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith</li> <li>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen</li> </ul>
<b>3-4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac effeithiol</li> <li>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith</li> <li>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas</li> <li>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen</li> </ul>
<b>0-2</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig.</li> </ul>

Tynnu 2 farc am iaith os nad yw ymegeisydd wedi ateb y ddau isgwestiwn.

**Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.**

### **Asesiad Synoptig**

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu'n synoptig yng nghwestiwn 2 wrth iddynt ddatblygu ymhellach y sgiliau canlynol: gwerthfawrogi arddull a defnyddio iaith ysgrifenedig. [45]